

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n dwyn y teitl Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon (21/12/17)

O ganlyniad i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg i'r ffordd y mae Adolygiad yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus, yn cael ei roi ar waith, lansiodd Cadeirydd y Pwyllgor ymchwiliad pellach i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon.

Adolygodd yr ymchwiliad barodrwydd y gweithlu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, gan ofyn yn benodol am dystiolaeth ar y rhyngberthynas â dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer y gweithlu addysg ac addysg gychwynol a hyfforddiant i athrawon.

Y pedwar prif faes y canolbwyntiwyd arnynt oedd:

- Trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r gweithlu presennol.
- Rôl addysg gychwynol i athrawon.
- Digonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol.
- Safonau proffesiynol newydd i athrawon.

Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg (ar y cyd â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad) o Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, a gafodd 837 o ymatebion gan unigolion sy'n gweithio yn y proffesiwn addysgu. Cafodd y Pwyllgor 28 o gyflwyniadau ysgrifenedig i'r ymgynghoriad agored ar yr ymchwiliad hefyd. Cynhaliodd y Pwyllgor wyth sesiwn dystiolaeth.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 21 Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys 25 o argymhellion a phedwar casgliad manwl. Nid yw'r Pwyllgor wedi penderfynu eto a fydd yn cynnal dadl ar yr adroddiad hwn mewn Cyfarfod Llawn, ond bydd yn cadarnhau hynny maes o law.

Amlinellir ymatebion manwl i argymhellion a chasgliadau'r adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith ar fyrder i sicrhau y paratoir y gweithlu cyfan ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'r cwricwlwm, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu manwl.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae dysgu proffesiynol yn hollbwysig er mwyn cyflawni bwriadau rhaglen diwygio'r cwricwlwm. Mae 'Addysg yng Nghymru' yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddatblygu trefniadau dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn barod ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm. Addysgeg rymus sydd wrth wraidd rhaglen diwygio'r cwricwlwm. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud cynnydd cyflym er mwyn cefnogi ein gweithwyr proffesiynol ym maes addysg.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n nodi "hyrwyddwyr" mewnol ac, ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, mae'n mireinio cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer 'Dyfodol Llwyddiannus' er mwyn cynnig profiadau dysgu proffesiynol priodol yng nghyd-destun Ysgolion yn gweithredu fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r Model Dysgu Proffesiynol.

Y tymor hwn, mae'r consortia rhanbarthol yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant a datblygu genedlaethol bwrpasol er mwyn helpu arloeswyr dysgu proffesiynol i ddeall y ffordd y mae'r cwricwlwm wedi cael ei ddylunio. Yna, bydd yr arloeswyr yn fwy parod i ymgysylltu â'r rhwydwaith ysgolion ehangach a'i gynnwys wrth brofi'r cwricwlwm newydd drwy gylchoedd ymholi gweithredol yn ystod Tymor yr Hydref. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ymarferwyr yn rhan o'r broses o wneud synnwyr o'r cwricwlwm er mwyn hybu hyder proffesiynol.

Yn y pen draw, rydym am ddysgu'r sgiliau i'n hymarferwyr arloesi a sicrhau'r diwylliant i wneud hynny. Yn yr Alban, nodwyd bylchau penodol mewn perthynas â chefnogi newid diwylliannol mewn ysgolion. Rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ein gwaith manwl gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd er mwyn datblygu pob ysgol yn sefydliad sy'n dysgu, fel y gall pob ymarferydd ffynnu mewn ysgolion lle ceir diwylliant dysgu cydweithredol.

Bydd trefn genedlaethol gychwynnol ar gyfer dysgu proffesiynol ar gael yn 2018 a bydd trefn genedlaethol gwbl integredig ar gyfer dysgu proffesiynol yn barod o fis Ebrill 2020.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyfleoedd dysgu gan ysgolion arloesi yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y proffesiwn addysg yn gyffredinol, i helpu i sicrhau bod y gweithlu addysg yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau ac yn barod ar gyfer y diwygiadau sydd i ddod.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Rydym wedi datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn helpu i roi 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl' ar waith. Caiff y ddogfen fyw hon ei hadolygu'n rheolaidd gan ein Byrddau Llywodraethu Rhaglenni. Mae cynlluniau cyfathrebu unigol hefyd yn cael eu datblygu gyda phartneriaid allweddol er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth, gan gynnwys cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu penodol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Bydd y strategaeth hon yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion allweddol i gyflwyno pecyn cysylltiedig o ddiwygiadau er mwyn paratoi ein hymarferwyr ar gyfer y newid diwylliannol a symleiddio ein dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod ein gweithlu, rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r broses.

Mae gan ysgolion arloesi rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ym maes addysg drwy'r sector cyfan er mwyn rhannu, profi, datblygu a gwella eu syniadaeth yn ystod y cam dylunio hwn. Mae gan y consortia rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran rhannu cynnydd â phob ysgol a chefnogi athrawon yn y gwaith o wireddu'r cwricwlwm newydd wrth iddo ddatblygu.

Rydym wedi datblygu blog ar y Cwricwlwm sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, lle rydym yn nodi'r syniadau a'r datblygiadau diweddaraf ynglŷn â'r cwricwlwm a chaiff cylchlythyr ei ddsbarthu bob tymor er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i bob rhanddeiliad allweddol. Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhwydwaith o ysgolion arloesi, rydym yn cynnal digwyddiadau cenedlaethol i ysgolion arloesi yn rheolaidd. Daeth dros 300 o ymarferwyr o ysgolion arloesi yng Nghymru i ddigwyddiad diweddar ym mis Ionawr. Bu'n gyfle i ymarferwyr gael gwybodaeth am y datblygiadau arloesi diweddaraf ac ystyried cerrig milltir allweddol ar gyfer tymor y gwanwyn a thymor yr haf.

Ymhlith y blaenoriaethau cychwynnol i ysgolion arloesi dysgu proffesiynol mae profi'r fframwaith dilyniant sy'n cael ei ddatblygu yn ystod tymor yr haf ac arwain cylchoedd ymholi gweithredol, gyda chymorth SAUau er mwyn dechrau profi'r cwricwlwm newydd gyda'r rhwydwaith ysgolion ehangach yn yr hydref.

Mae'r rhanbarthau wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned ysgolion ehangach drwy eu strategaethau clwstwr ac ymgysylltu. Maent hefyd wedi cydweithio ar brosiectau ac adnoddau a rennir er mwyn sicrhau lefel o gysondeb drwy'r gymuned gyfan o ysgolion arloesi ac yn gynyddol ymhlith ysgolion yn y gymuned ehangach. Ceir manylion llawn y gweithgareddau ar gyfer pob rhanbarth yn Nogfen 2.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio sut i ddefnyddio diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd yn well, gan roi amser i athrawon fyfrio ar eu gwaith proffesiynol.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn bwysig o ran cefnogi addysgu, dysgu ac asesu effeithiol. Mae'n bwysig cofio bod athrawon yng Nghymru yn cael pum diwrnod hyfforddiant mewn swydd yn rhinwedd y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon a bydd y rhain yn parhau i fod ar gael. Dylai'r pum diwrnod hyn fod yn ddigon i bob ysgol ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant, cynllunio a datblygiad proffesiynol sydd eu hangen ar athrawon.

Byddai unrhyw gynnydd yn nifer y diwrnodau hyfforddiant a neilltuir yn arwain yn uniongyrchol at leihad yn nifer y diwrnodau dysgu a gynigir i ddisgyblion ac felly mae'n rhaid cydbwysu hyn â cholli cyfleoedd dysgu. Bydd y penderfyniad i ddatganoli cyflog ac amodau yn ddiweddarach eleni yn rhoi cyfle i fynd ati i ystyried mater digonolrwydd. Cyflwynwyd y trefniadau presennol gryn amser yn ôl ac felly bydd yn briodol ailystyried a yw'r trefniadau hyn yn addas at y diben o hyd, yn enwedig yng ngoleuni'r diwygiadau eang eu cwmpas sydd i ddod.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried hybu rhagor o ddysgu arferion ymhlith cydweithwyr, ac annog mwy o gyfleoedd datblygu a hyfforddi o fewn yr ystafell ddogfen, er mwyn sicrhau gwell cydbwysedd ar gyfer datblygu proffesiynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-17 yn nodi mai'r duedd fwyaf arwyddocaol dros y saith mlynedd diwethaf yw newid yn y diwylliant addysgol i fod yn fwy cydweithredol, yn enwedig wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd mewn partneriaeth â'r proffesiwn. Cydnabu Estyn hefyd fod buddsoddi yn y gwahanol haenau yn y sector addysg yn dechrau amlygu ei hun, gan adlewyrchu'r newid sylweddol tuag at '*system hunanwella*'.

Mae Model Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru yn cynnig y weledigaeth a'r egwyddorion craidd i lywio'r gwaith o ddylunio a gwerthuso pob ffurf ar ddysgu proffesiynol a sicrhau ei ansawdd. Mae'r model yn cynnwys pedair elfen, y mae dwy ohonynt yn canolbwyntio ar 'Cydweithio Effeithiol' a 'Hyfforddi a Mentora'. Mae Cymru yn troi'n gyflym oddi wrth fodel lle roedd dysgu proffesiynol yn cael ei ddarparu i ffwrdd o'r ysgol, i brofiad cydweithredol, o dan arweiniad ymarferwyr sydd wedi'i sefydlu mewn ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Er mwyn meithrin gallu pob ysgol yng Nghymru i wella, mae '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*' yn amlinellu ein huchelgais i ddatblygu pob ysgol yn sefydliad sy'n dysgu. Ers mis Ionawr 2017, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r consortia rhanbarthol i wireddu'r uchelgais hon. Mae dau o saith dimensiwn model ysgolion yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu yn canolbwyntio ar '*hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff*' a '*modelu a datblygu arweinyddiaeth*'.

Mae dros 2,000 o ymarferwyr wedi cyfrannu at raglenni peilot cynnar, a bwriedir ei gyflwyno i bob ysgol yng Nghymru yn ddiweddarach eleni. Bydd Adroddiad Astudiaeth gan OECD ar 'Datblygu Ysgolion yng Nghymru yn Sefydliadau sy'n Dysgu' y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Ebrill eleni yn rhoi asesiad sylfaenol cynnar o'r cyfleoedd dysgu rhwng cydweithwyr sydd ar gael mewn ysgolion ar hyn o bryd yng Nghymru er mwyn meithrin gallu yn y dyfodol. Mae cyfres o astudiaethau achos wrthi'n cael ei datblygu i roi enghreifftiau o ymarfer arloesol ym mhob un o ddimensiynau ysgolion yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu, a bydd hyn yn gyfle i bob ysgol weld enghreifftiau rhyngwladol a lleol arloesol er mwyn gwella ymhellach yr agweddau ar eu proffil ysgol sy'n gweithredu fel sefydliad sy'n dysgu sy'n ymwneud â dysgu ymhlith cydweithwyr.

Bydd yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol newydd yn ystyried dysgu ymhlith cydweithwyr fel rhan o'i datblygiad. Rydym hefyd yn datblygu rhagor o weithgarwch hyfforddi a mentora fel rhan o'i rhaglenni dysgu gyda'r consortia rhanbarthol.

Fel rhan o'i datblygiad, mae'r Academi wedi recriwtio grŵp bach o benaethiaid effeithiol a chredadwy o bob cwr o Gymru yn ddiweddar i weithredu fel y grŵp cyntaf o Aelodau Cyswllt yr Academi. Bydd yr Aelodau Cyswllt yn chwarae rôl allweddol, ochr yn ochr â'r Academi, i wireddu'r uchelgais a amlinellir yn

'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl' gan weithredu fel modelau rôl ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion ledled Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch y rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion.

Ymateb: **Derbyn**

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni i dreialu rôl Rheolwyr Busnes yn unol â'r amserlen a amlinellwyd gan y Pwyllgor.

Goblygiadau ariannol: Dim. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol gan y bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi drwy waith wedi'i gynllunio ar y rhaglenni i dreialu rôl rheolwyr busnes drwy ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried sefydlu system achredu gydnabyddedig sy'n sicrhau ansawdd y cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Hoffwn i ymarferwyr bennu eu disgwyliadau proffesiynol eu hunain, a fydd yn eu galluogi i ymchwilio i arfer gorau, ei ddatblygu a'i rannu drwy amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu proffesiynol priodol. Am y rheswm hwn, ni ragwelaf sefyllfa ar hyn o bryd lle y dylai un corff annibynnol (Cyngor y Gweithlu Addysg) gael y cyfrifoldeb am benderfynu a yw ansawdd dysgu proffesiynol wedi cael ei sicrhau i'r gweithlu addysg cyfan.

Ceir partneriaethau helaeth a chynyddol rhwng y consortia rhanbarthol a SAUau ledled Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu meithrin a'u hannog o ganlyniad i'r newidiadau i addysg gychwynnol i athrawon, y ffordd y mae'r rhanbarthau yn ymdrin â dysgu proffesiynol achrededig, a datblygiadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ym maes ymchwil addysg sy'n seiliedig ar bartneriaid. Mae **Dogfen 2** yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae'r rhanbarthau yn mynd ati i sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu proffesiynol. Er nad yw'r trefniadau presennol yn adlewyrchu system achredu gwbl gydnabyddedig sy'n gyson â'r Drefn Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, mae swyddogion yn gweithio gyda'r rhanbarthau i ddilysu hyn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch gwerthusiadau mewnol/allanol consortia o'r cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael. Dylid cyhoeddi manylion y gwerthusiadau hynny, a dylid rhannu canlyniadau'r gwerthusiadau â'r Cynulliad.

Ymateb: **Derbyn**

Mae'r rhanbarthau yn cynnal gwerthusiadau mewnol o'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd ar gael mewn nifer o ffyrdd amrywiol. Mae arolwg CSC o staff a disgyblion wedi'i gynllunio i brofi ymgysylltu dysgwyr ac ymarferwyr ac mae'n cael ei gwblhau'n flynyddol, gan roi cipolwg ar effaith ei waith o safbwynt ysgolion, staff a dysgwyr. Mae Grwpiau Gwella Ysgolion yn nodi effaith fesuradwy gwaith cydweithredol drwy ddangosyddion uniongyrchol, anuniongyrchol a dirprwyol. Mae eu cynlluniau'n canolbwyntio ar flaenoriaethau Gwella Ysgolion ac yn diwallu anghenion rhanbarthol. Mae Grwpiau Gwella Ysgolion yn cefnogi'r gwaith o feithrin gallu arweinyddiaeth ar y rhan fwyaf o lefelau ac mae tua hanner y Grwpiau Gwella Ysgolion yn defnyddio egwyddorion Datblygu Ymarfer ar y Cyd.

Caiff y gwerthusiadau eu cyhoeddi. Mae copïau o adroddiadau'r gwerthusiadau ar gael yn **Nogfen 2**.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gwerthuso dysgu proffesiynol yn cael eu talu drwy ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol a ddyfernir i'r consortia rhanbarthol drwy grant blynyddol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, wedi i'r flwyddyn academaidd nesaf ddod i ben, ynghylch effaith canllawiau Estyn ar gyfer athrawon i leihau'r llwyth gwaith.

Ymateb: **Derbyn**

Byddwn yn croesawu gwerthusiad amserol o effaith y canllawiau ynghylch lleihau'r llwyth gwaith ar y gweithlu, o ystyried i'r canllawiau gael eu paratoi mewn ffordd gydweithredol gan yr holl randdeiliaid allweddol – Estyn, y consortia rhanbarthol, undebau'r gweithlu a Llywodraeth Cymru – er mwyn cymryd camau i ymgysylltu'n agosach â'r proffesiwn er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith.

Ar ôl i'r canllawiau gael eu paratoi cafodd rhaglen ei datblygu i godi ymwybyddiaeth a rhoi arweiniad ar arfer gorau i ysgolion a chynghorwyr her,

ynghylch rhoi'r canllawiau ar waith. Cafodd hyn ei weithredu gan y consortia rhanbarthol a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o sicrhau dull gweithredu cyson a lledaenu arfer gorau mewn ffordd glir.

Bwriedir rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu ar y gwerthusiad o effaith, a hefyd ystyried cyfleoedd i leihau llwyth gwaith diangen mewn meysydd eraill ar yr un pryd. Caiff adolygiad o effaith y canllawiau ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2018/19. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad thematig o'r Canllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu yn effeithiol a gynhaliwyd gan Estyn ar ôl blwyddyn academaidd o'u rhoi ar waith, yn awgrymu, er i rai argymhellion da ar gyfer gwella gael eu nodi, y byddai wedi bod yn well o bosibl ei gynnal ar ôl i fwy o amser fynd heibio ers eu rhoi ar waith fel bod corff mwy o dystiolaeth ar gael a bod modd nodi tueddiadau mwy penodol.

Goblygiadau Ariannol – Gallai/byddai'r costau sy'n gysylltiedig ag ymchwil bellach yn rhan o gylch gwaith blynyddol Estyn.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y cytunir ar delerau'r adolygiad thematig ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd i ddod.

Ymateb: Derbyn

Mae Cylch Gwaith Blynyddol Estyn ar gyfer 2017/18 yn cynnwys nifer o adolygiadau thematig sydd â ffocws ar ddysgu proffesiynol, gan gynnwys:

- *Gwella addysgu a meithrin gallu* er mwyn gwerthuso'r effaith y mae rhaglenni megis arsylwi cymheiriaid, hyfforddi a mentora yn ei chael ar ddysgwyr.
- *Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 2* sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar y broses o ddiwygio'r cwricwlwm, yn enwedig arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.
- *Addysg gychwynnol i athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion*, sef astudiaeth sylfaenol o'r berthynas rhwng arferion hyfforddiant cychwynnol i athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion a fydd yn canolbwyntio ar hyfforddi a mentora.

Ym mis Mawrth eleni, bydd Estyn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau blwyddyn gyntaf adolygiad thematig tair blynedd sy'n canolbwyntio ar 'Cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd'. Bydd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos o ymarfer diddorol sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae ysgolion yn archwilio'r sylfeini sydd eu hangen i greu cwricwlwm cryf, arloesol.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau adolygiadau eraill 17/18 maes o law.

Caiff adolygiad thematig ehangach gan Estyn sy'n canolbwyntio ar ansawdd/priodoldeb dysgu proffesiynol sy'n cael ei ddatblygu ei gomisiynu ar ôl i'r drefn genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gael ei rhoi ar waith yn llawn ym mis Medi 2018. Cynigir y bydd yr adolygiad hwn yn gwerthuso:

- ansawdd darpariaeth dysgu proffesiynol sy'n cael ei datblygu er mwyn paratoi ymarferwyr ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- priodoldeb a pherthnasedd darpariaeth dysgu proffesiynol newydd a ph'un a yw'n gyson â blaenoriaethau dysgu proffesiynol sy'n datblygu, yn gysylltiedig â MDPHau;
- cysondeb darpariaeth ar draws holl gerrig milltir allweddol y Llwybr Datblygu Gyrfa;
- a yw'n gyson â gweledigaeth, egwyddorion a model dysgu proffesiynol.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwil bresennol/bellach yn rhan o gylch gwaith blynyddol Estyn.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwerthusiad cynnar o'r ymgyrch Darganfod Addysgu i bennu (a) a fu'n llwyddiant a (b) a ddylid rhoi mwy o adnoddau i'r ymgyrch i'w datblygu ymhellach. Yn benodol, dylai'r gwerthusiad ystyried y meysydd mwy difrifol hynny lle bo prinder athrawon, a phennu a oes angen ymgyrchoedd recriwtio penodol sy'n fwy uniongyrchol.

Ymateb: Derbyn

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnal adolygiad cyflym o'r ymgyrch Darganfod Addysgu ac yn cyflwyno adroddiad erbyn y Pasg. Yn ogystal â chadarnhau i ba raddau y mae'r ymgyrch yn effeithiol, bydd yr adolygiad yn cynnwys argymhellion ynglŷn ag ymgyrchoedd recriwtio athrawon yn y dyfodol, gan gynnwys adnoddau.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith y cymhellion recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg newydd, ac effaith y £4.2 miliwn ychwanegol i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys asesu cyfraniad Tâl Atodol Gwella Cyfrwng Cymraeg at hyfforddiant cychwynnol. Efallai y bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth a allai lywio'r gwaith o gyflwyno'r cymhelliant recriwtio cyfrwng Cymraeg.

Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y cymhelliant recriwtio cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd yr athrawon dan hyfforddiant a all wneud cais am y cymhelliant yn dechrau eu haddysg gychwynnol i athrawon ym mis Medi 2018. Felly, mae angen inni roi amser iddynt gwblhau eu hyfforddiant a dod o hyd i gyflogaeth cyn y gallwn gynnal gwerthusiad llawn. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi mesurau ar waith i fonitro faint o athrawon sy'n gwneud cais am y cymhelliant o bryd i'w gilydd.

Mae'r cyllid o £4.2m i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg yn 2017-18 wedi'i rannu'n nifer o elfennau. Dyrannwyd £1.2m i gefnogi'r gwaith o ehangu'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg. Mae gwerthusiad o'r Cynllun hwn wrthi'n cael ei gynllunio, a'r gobaith yw y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ebrill 2018 dros gyfnod o 2-3 blynedd. Dyrannwyd £2.355m i'r consortia rhanbarthol gynnal gweithgareddau dysgu proffesiynol. Defnyddiwyd y swm o £550k sy'n weddill i gefnogi defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg, y byddwn yn ei werthuso yn ystod 2018/19, a gweithgarwch cyfathrebu ac ymchwil.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet weithredu ar fyrder i gynyddu lefelau recriwtio athrawon o leiafrifoedd ethnig, ac i recriwtio athrawon ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Er mwyn sicrhau bod ein hysgolion yn gwbl gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, mae'n rhaid inni ehangu cyfranogiad i'r grwpiau hynny heb gynrychiolaeth ddigonol yng ngweithlu addysgu Cymru ar hyn o bryd. I'r

perwyl hwn, rydym am i'n llwybrau Addysg Gychwynnol i Athrawon goleddu'r un weledigaeth a dealltwriaeth o weithlu addysgu Cymru yn y dyfodol a diwallu anghenion darpar athrawon dawnus, beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau.

Er mwyn deall y broses o recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru yn well, cafodd darn allweddol o ymchwil ei gomisiynu. Comisiynwyd Beaufort Research ac NFER Cymru i ymchwilio i faes Cadw Athrawon ac Atyniad Addysgu yng Nghymru o ran athrawon addysg gychwynnol i athrawon ac athrawon presennol. Bydd yr ymchwil hon yn ystyried ac yn deall y materion ynglŷn â recriwtio a chadw athrawon mewn nifer o gyd-destunau, gan gynnwys cyd-destun daearyddol ac amrywiaeth a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018. Bydd yr ymchwil yn cynnwys gwaith ansoddol i gyfweild â darpar fyfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon, athrawon presennol a rhanddeiliaid, gan gynnwys prifysgolion, er mwyn canfod y ffactorau ysgogi allweddol a'r atebion mwyaf costeffeithiol o bosibl.

Mae recriwtio i Addysg Gychwynnol i Athrawon yn hollbwysig hefyd. Mae ymgyrch recriwtio TAR gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu at israddedigion yn eu blwyddyn olaf wedi dechrau ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r consortia i gefnogi eu hymgyrch Darganfod Addysgu, gan sicrhau synergedd, eglurder a chysondeb negeseuon allweddol yn ogystal â thargedu rhanbarthau allweddol, arbenigeddau pwnc a demograffeg.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ofyn i'r Fforwm Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon ystyried y materion a'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Daeth y Fforwm Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon i ben yn ystod hydref 2017 pan ddaeth aelodau allweddol, yr Athro Furlong a Dr Lawlor, yn aelodau o Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg ar ôl proses penodiadau cyhoeddus. Mae'r Bwrdd wedi cael y dasg o achredu rhaglenni addysg gychwynnol newydd i athrawon yng Nghymru.

Mae Bwrdd Cyngori Recriwtio a Chadw Athrawon Llywodraeth Cymru sydd newydd ei sefydlu wedi cael y dasg o roi cyngor arbenigol a her yn y maes hwn, gan ystyried materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon er mwyn cefnogi gweithlu addysg o ansawdd sy'n egnïol, yn ymroddedig ac wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bawb, ac sydd hefyd yn gallu bodloni gofynion diwygio'r cwricwlwm ac addysg yn ehangach. Bydd y Bwrdd

Cynghori, a gadeirir gan yr Athro John Gardner, yn ystyried yr adroddiad hwn yn ofalus, gan roi cyngor i mi a'm swyddogion er mwyn llywio'r dull gweithredu strategol cyffredinol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet annog mwy o ddefnydd ar draws Prifysgolion Cymru o'r cynllun sydd ar waith yn Imperial College Llundain lle bo israddedigion yn cael profiad o addysgu mewn modiwlau sy'n rhan o'u gradd arferol.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y llynedd, amlinellais fy nisgwyliaidau y byddai prifysgolion yn cyflwyno addysgu i fwy o fyfyrwyr yn eu hastudiaethau israddedig, fel rhan o ddatblygu cenhadaeth ddinesig Addysg Uwch yng Nghymru.

Byddwn yn disgwyl gweld prifysgolion yn cydnabod manteision ymgysylltu cymunedol ehangach ag ysgolion, gan arwain at effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ysgol ac israddedigion. Disgwyliaf i CCAUC fynd ati i weithio gyda holl brifysgolion Cymru er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae hyn wedi'i gwmpasu o dan gyllideb CCAUC.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal gwaith i bennu'r graddau y mae llwyth gwaith athrawon yn rhwystr i recriwtio.

Ymateb: **Derbyn**

Fel y crybwyllwyd eisoes, bydd Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon Llywodraeth Cymru yn ystyried materion sy'n ymwneud â recriwtio athrawon ac yn rhoi cyngor yn y maes hwn.

Mae pryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith yn amrywio'n fawr ymhlith y gweithlu addysg. Caiff materion a blaenoriaethau gwahanol eu codi, yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys: cyfnod yn yr ysgol, gwledigrwydd, amddifadedd, maes pwnc, rôl, ac ati, a hefyd rhwng arferion gweithredu unigol ysgolion penodol a/neu awdurdodau lleol. O ganlyniad, rydym wedi mabwysiadu dull amlffwrdd er mwyn mynd i'r afael â'r materion gwahanol hyn.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith rydym wedi mynd ati i ymgysylltu'n agosach â'r proffesiwn; gan geisio gwelliant yn y system addysg drwy weithio gydag ymarferwyr, ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae nifer o fesurau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau a phrofiad ymarferwyr eu bwydo i mewn i'r broses, nid yn unig o ran polisiau newydd ond hefyd arferion presennol. Mae trafodaethau manwl yn cael eu cynnal gyda'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau'r gweithlu Addysg, er mwyn nodi pryderon penodol a datblygu atebion posibl. Comisiynais Gyngor y Gweithlu Addysg i gynnal arolwg o'r gweithlu, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017 ac mae hwn yn helpu i lywio ein datblygiadau i leihau llwyth gwaith diangen.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau hyn eu talu drwy ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i bennu lefelau ymadael athrawon a'r rhesymau dros hynny. Ochr yn ochr â hyn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau y cynhelir cyfweiliadau ymadael trylwyr â'r sawl sy'n gadael y proffesiwn i bennu'r rhesymau dros adael.

Ymateb: Derby

Er mwyn deall y broses o recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru yn well, cafodd darn allweddol o ymchwil ei gomisiynu. Comisiynwyd Beaufort Research ac NFER Cymru i ymchwilio i faes Cadw Athrawon ac Atyniad Addysgu yng Nghymru o ran athrawon addysg gychwynnol i athrawon ac athrawon presennol. Bydd yr ymchwil hon yn ystyried ac yn deall y materion ynglŷn â recriwtio a chadw athrawon mewn nifer o gyd-destunau, gan gynnwys effaith lefelau ymadael athrawon a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018. Bydd yr ymchwil yn cynnwys gwaith ansoddol i gyfweild â darpar fyfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon, athrawon presennol a rhanddeiliaid, gan gynnwys prifysgolion a darparwyr addysg gychwynnol athrawon, er mwyn canfod y ffactorau ysgogi allweddol a'r atebion mwyaf costeffeithiol o bosibl.

Bydd y Cyfrifiad Blynyddol newydd o'r Gweithlu Ysgolion yn ymhelaethu ar y wybodaeth am recriwtio a chadw a gesglir ar hyn o bryd drwy CYBLD er mwyn rhoi tystiolaeth fwy cadarn a chywir ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chadw athrawon. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr ar y defnydd o gyfweiliadau ymadael a'u manteision er mwyn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chadw athrawon, a fydd yn llywio gwaith y Bwrdd Recriwtio a Chadw Athrawon sydd newydd ei greu.

Goblygiadau Ariannol – Fel y crybwyllwyd, mae Beaufort Research ac NFER Cymru wedi cael eu comisiynu i ymchwilio i faes Cadw Athrawon ac

Atyniad Addysgu yng Nghymru. Mae'r gost hon eisoes wedi'i chymeradwyo a daw o gyllideb rhaglen WSU yn 2017/18 a 2019/20.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet archwilio ymhellach a oes digon o gefnogaeth ar gyfer athrawon newydd yn y blynyddoedd cynnar, a dylid ystyried datblygu cynllun mentora mwy cadarn ar eu cyfer.

Ymateb: **Derbyn mewn Egwyddor**

Mae dogfen newydd [Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru: Addysgu athrawon yfory \(2017\)](#) yn nodi'n glir y gofyniad ar ysgolion a SAUau i gydweithio i gefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant. Yn gyntaf, ar lefel rhaglen, mae angen i raglenni gael eu llunio fel bod cyfleoedd strwythuredig i ddwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner. Mae angen cymorth mentora rheolaidd ac iddo strwythur da ar athrawon dan hyfforddiant yn eu hysgolion; yn eu prifysgolion mae angen darlithoedd, seminarau a gweithdai o safon uchel arnynt. Ond hefyd, bydd angen iddynt gael cyfleoedd, pan fyddant wedi'u lleoli yn yr ysgol, i ddod i gysylltiad â'r mathau o wybodaeth sydd ar gael drwy brifysgolion; pan fyddant yn y brifysgol, bydd angen iddynt gael cyfleoedd i ddod i gysylltiad â'r mathau o wybodaeth ymarferol a ddysgir yn yr ysgol.

Rydym hefyd yn cefnogi athrawon newydd gymhwyso sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot clwstwr cyflenwi yn yr ysgol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Bydd yr athrawon hyn yn cael budd o gymorth proffesiynol parhaus a mentora ar ddechrau eu gyrfaedd er mwyn bodloni eu gofynion ymsefydlu, diwallu eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol a chefnogi trefniadau rheoli perfformiad ystyrlon.

Mae'r safonau proffesiynol newydd a gyflwynwyd ar gyfer addysgu wedi cynnig mwy o barhad yn ystod addysg gychwynnol i athrawon a'r cyfnod ymsefydlu, nad oedd athrawon dan hyfforddiant yn ei brofi'n flaenorol. Erbyn hyn, ceir cyfnod pontio mwy esmwyth sy'n canolbwyntio ar y pum elfen o addysgu sy'n berthnasol i bob ymarferydd. Drwy hyn, mae athrawon newydd gymhwyso (ANGau) yn cael cyfle i ddefnyddio'r profiad, y wybodaeth a'r arfer a ddatblygwyd ganddynt yn ystod addysg gychwynnol i athrawon ac adeiladu

ar hynny yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Bydd darparwyr addysg gychwynnol i athrawon yn mabwysiadu'r safonau newydd yn llawn ym mis Medi 2019.

Caiff pob ANG ei gynorthwyo gan ddau ymarferydd sydd â phrofiad addas yn ystod ei gyfnod ymsefydlu: fel arfer mae un mentor wedi'i leoli yn yr un ysgol â'r ANG ond gall hefyd gael ei ddefnyddio mewn nifer o ysgolion neu weithio gyda grŵp o athrawon cyflenwi. Mae'r ail fentor o'r tu allan i'r ysgol fel arfer ac mae'n sicrhau rhywfaint o wrthrychedd a chysondeb yn y broses.

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r consortia rhanbarthol i ystyried y materion sy'n gysylltiedig â chyflwyno safonau newydd. O ganlyniad, mae'r consortia wedi cael adnoddau ychwanegol eleni er mwyn sicrhau bod ANGau yn cael gwell cymorth.

Ym mis Tachwedd 2016, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a oedd yn nodi ein trefn genedlaethol ar gyfer gwella'n barhaus y ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu a'i gyflwyno mewn ysgolion a meithrinfeydd a ariennir nas cynhelir. Er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr, arbenigedd yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i'w gyflwyno, rydym yn sefydlu Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen. Bydd y rhwydwaith yn atgyfnerthu cydweithio drwy'r sector cyfan, gan gynnwys ysgolion, y sector nas cynhelir, gwasanaethau addysg a'r byd academaidd. Bydd y rhwydwaith yn anelu at gefnogi arweinyddiaeth addysg yn y Cyfnod Sylfaen, fel rhan o'r drefn genedlaethol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth.

Bydd parth Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen sy'n cael ei ddatblygu – i'w lansio ym mis Mawrth – yn rhoi llwyfan i holl ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen rannu arfer effeithiol fel rhan o drefn genedlaethol ehangach ar gyfer dysgu proffesiynol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi ystyriaeth bellach i gymhlethdod a hygyrchedd y safonau i sicrhau bod pawb ar draws y proffesiwn yn gallu cael mynediad at y safonau yn y fformat gorau iddyn nhw, ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd ymgorffori'r safonau yn eu harferion gwaith.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae'r model safonau newydd yn cyflwyno pum safon allweddol, sy'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro, yn lle 55 o safonau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 32 o ddisgrifyddion drafft a fyddai, gyda'i gilydd, yn gymwys i bob athro, o addysg gychwynnol i athrawon i arweinwyr

ysgolion. Roedd dogfen yr ymgynghoriad, o reidrwydd, yn un gymhleth a hirfaith. Nid oes gofyniad na disgwylid i unrhyw ymarferydd sy'n defnyddio'r safonau yn ei waith ymgorffori'r safonau a'r disgrifyddion yn eu cyfanrwydd.

Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ceir pum safon ynghyd â'u disgrifyddion ategol bellach. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio mewn ffordd ddethol, drwy ganolbwyntio ar yr agweddau sy'n berthnasol i'r cam y mae'r unigolyn wedi'i gyrraedd yn ei yrfa a'r cyd-destun y mae'n gweithio oddi mewn iddo. Ar gyfer y rhan fwyaf o athrawon ac arweinwyr bydd hyn yn cynnwys myfyrio ar eu hymarfer mewn perthynas â'r pum safon. Bydd yn ofynnol i ymarferwyr ar adegau yn eu gyrfa lle maent yn cael eu hasesu, er enghraifft athrawon newydd gymhwyso sy'n mynd drwy gyfnod ymsefydlu, ddangos yr holl ddisgrifyddion ymsefydlu er mwyn cwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Datblygwyd y safonau ar y cyd â'r proffesiwn, dros y proffesiwn ac maent yn ffrwyth ymgysylltu estynedig â'r sector. Mae'r safonau newydd yn hollbwysig i gyflawni ein huchelgais genedlaethol ar gyfer cwricwlwm newydd ac maent wedi cael eu llunio gan gadw hynny mewn cof. Cawsant eu datblygu i adlewyrchu'r diwygiadau i addysg gychwynnol i athrawon, fframwaith cymwysterau sy'n datblygu a lansio'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol. Mae'r adborth gan ANGau a mentoriaid sydd wedi defnyddio'r safonau ers mis Medi 2017 wedi bod yn galonogol.

Disgwylir i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw ac mae'r llwyfan ar-lein yn cefnogi hynny. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac ymarferwyr i adolygu a mireinio fformat y safonau, gan gynnwys dichonoldeb ap symudol ar gyfer y pasbort dysgu proffesiynol. Caiff adolygiad o gynnwys, fformat a hygyrchedd y safonau ei ystyried ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i'r proffesiwn cyfan.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried i ba raddau y mae'r safonau proffesiynol newydd yn cynnig llinell sylfaen ddigonol ar gyfer perfformiad athrawon, a diwygio'r safonau i gynnwys mesur i nodi'r safonau a ddisgwylir gan athrawon er mwyn ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

Ymateb : Gwrthod

Mae'r pum safon yn nodi'n glir elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithio, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol – ac yn diffinio beth y gallai pob un o'r elfennau hyn ei olygu i bob athro ac arweinydd.

Os oes angen, gall ymarferwyr ystyried y disgrifyddion, sy'n egluro'r safonau'n fanylach. Mae'r disgrifyddion hefyd yn cynnwys lefel i ymgynraedd ati, sy'n rhoi ffocws i ddysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Mae'r disgrifyddion y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, yn cynnig "llinell sylfaen" drwy gydol gyrfa athro.

Mae safonau proffesiynol yn rhan bwysig o'r broses o reoli perfformiad drwy roi fframwaith ar gyfer datblygu a dathlu ymarfer unigolion a nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad pellach drwy ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Nid yw rôl y safonau mewn perthynas â chyflog nac mewn perthynas â gweithdrefnau galluogrwydd wedi newid drwy gyflwyno safonau newydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg iddo fod yn gyfrifol am safonau proffesiynol.

Ymateb: Gwrthod

Mae'n ofynnol i'r gweithlu addysg ehangach gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg a hyd yma, nid yw'r proffesiwn wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth Cymru i'r perwyl y dylai Cyngor y Gweithlu Addysg ymgymryd â'r swyddogaeth hon nac unrhyw swyddogaeth ychwanegol arall.

Sefydliad cymharol ifanc yw Cyngor y Gweithlu Addysg ac ers ei sefydlu yn 2015 mae nifer y rhai sy'n cofrestru ag ef wedi cynyddu mwy na 50%. Fel y cyfryw, mae'n bwysig bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael amser i ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd presennol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu proffesiwn addysgu o safon uchel, fel y'i nodwyd yn y ddogfen Cenhadaeth ein Cenedl; yn lle gofyn i un corff gael rheolaeth gyffredinol.

Wrth ddatblygu'r safonau newydd gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod y sector yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu a phrofi'r safonau i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen, a oedd yn cynnwys gweithdai, digwyddiadau gan y consortia, treialu'r safonau drafft gan ymarferwyr mewn ysgolion, yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol. Chwaraeodd Cyngor y Gweithlu Addysg ei ran ac, ar y cyd ag Estyn ac undebau'r gweithlu, cafodd ei hysbysu am ddatblygiadau drwy gydol y broses.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi dewis derbyn yr argymhelliad hwn fel un o swyddogaethau craidd Cyngor y Gweithlu Addysg, byddai unrhyw gostau cysylltiedig wedi cael eu talu drwy ffi gofrestru ymarferwyr.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn rhoi iddo'r pŵer i wahardd athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau ein bod yn cael deialog â Chyngor y Gweithlu Addysg ynglŷn â'i gais o hyd am bwerau Gorchymyn Gwahardd Dros Dro.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am dystiolaeth bendant gan Gyngor y Gweithlu Addysg ynglŷn â'r goblygiadau a ddeilliodd o achosion hanesyddol, lle mae Cyngor y Gweithlu Addysg o'r farn y byddai pŵer i roi Gorchymyn Gwahardd Dros Dro wedi bod yn fesur diogelu pwysig; a'r goblygiadau oherwydd diffyg pŵer o'r fath, a fyddai fel arall wedi cael eu hosgoi. Hyd yma, nid yw'r wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno, gan gynnwys enghreifftiau lle mae'r cyflogwr wedi methu â gweithredu'n briodol.

Mae'n hollbwysig bod dystiolaeth o'r fath yn cael ei chyflwyno er mwyn i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n briodol newid y gyfraith. Byddai dystiolaeth o'r fath yn llywio'r broses o ddrafftio unrhyw ddarpariaeth deddfwriaethol pe bai angen hynny, ac yn helpu i roi'r cyfiawnhad a fyddai ei angen yn ystod ymgynghoriad ac wrth i'r Cynulliad graffu ar y newid deddfwriaethol arfaethedig.

Gall defnyddio bwerau Gorchymyn Gwahardd Dros Dro arwain at oblygiadau difrifol i'r ymarferydd dan sylw. Er mai gweithred niwtral yw gwahardd dros dro yn ei hanfod gall achosi stigma i'r sawl dan sylw hyd yn oed os penderfynir nad yw wedi camymddwyn o gwbl. Yn yr un modd, efallai fod dystiolaeth y byddai Gorchymyn Gwahardd Dros Dro yn briodol mewn rhai achosion. Fodd bynnag, bu sawl achos lle mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod cyrff rheoleiddio wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth osod gorchymyn o'r fath.

Effaith tynnu enw ymarferydd oddi ar Gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg yn sgil cyhuddiad neu mewn achosion eithriadol ar adeg arestio yw y byddai rhwymedigaeth ar y cyflogwr i'w wahardd dros dro ar unwaith; gweithred y gall y cyflogwr benderfynu nad oes modd ei gyfiawnhau, os nad yw'r achos yn peri risg ddifrifol na risg enbyd i ddiogelwch y cyhoedd.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru oherwydd telir am swyddogaethau craidd Cyngor y Gweithlu Addysg

drwy ffioedd cofrestru ymarferwyr. Fodd bynnag, pe bai Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael pwerau i roi Gorchymyn Gwahardd Dros Dro yn y dyfodol efallai y byddai'n gofyn am i'r ffi gynyddu er mwyn talu am gost y gwaith ychwanegol a fyddai'n cael ei wneud oherwydd mwy o wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael mynediad llawn at gyfleoedd datblygu proffesiynol.

Ymateb: Derbyn

Mae ysgolion yn gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff, gan gynnwys athrawon cyflenwi. Argymhellodd Adroddiad Tasglu Gweinidogol y Model Cyflenwi Athrawon y dylid rhoi ystyriaeth i gefnogi dysgu proffesiynol athrawon cyflenwi, yn enwedig ANGau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno mynediad personol at Hwb i bob athro cyflenwi ac i ystyried, ochr yn ochr â'r consortia rhanbarthol, opsiynau i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi blaenoriaethau addysg Cymru. Mae pob athro cyflenwi cofrestredig hefyd yn cael mynediad at gynlluniau dysgu personol.

Bydd ANGau sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot clwstwr cyflenwi yn yr ysgol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017 yn cael budd o drefniadau datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad. Gall athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau recriwtio masnachol hefyd gael budd o raglenni hyfforddiant craidd a gynigir fel rhan o'r trefniant cytundebol rhwng yr athro cyflenwi a'r asiantaeth sy'n ei gyflogi.

Goblygiadau Ariannol – Gellir talu am y costau sy'n gysylltiedig â mynediad at Hwb, rhaglenni hyfforddiant consortia a chynlluniau peilot clwstwr cyflenwi drwy ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod mwy o gefnogaeth i'r defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, o ystyried ei botensial, a'r arian sydd eisoes wedi'i wario arno. Gallai'r cynnydd yn y gefnogaeth elwa yn sgil gwerthusiad o'r ffordd y mae'r PDP presennol yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r rhwystrau rhag ei ddefnyddio.

Ymateb: Derbynn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac ymarferwyr er mwyn sicrhau bod y profiad o ddefnyddio llwyfannau Llywodraeth Cymru yn un di-dor drwy gysylltu ein holl adnoddau ar-lein. Drwy'r gwaith hwn bydd ymarferwyr nid yn unig yn gallu nodi eu gofynion dysgu proffesiynol ond defnyddio'r adnoddau i'w galluogi i wella eu hymarfer a rhannu adnoddau a phrofiadau â chydweithwyr a'r gweithlu addysg ehangach.

Dylid cynllunio, cofnodi a myfyrio ar ddysgu proffesiynol yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), yng nghyd-destun y safonau proffesiynol.

Er mwyn cynyddu'r defnydd a wneir o'r PDP mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg fod yn hyderus bod y PDP yn diwallu anghenion ymarferwyr fel y bydd niferoedd cynyddol yn cael eu hargyhoeddi ynglŷn â gwerth canfyddedig defnyddio'r PDP. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'n cynnwys gwerthuso gweithrediad presennol y PDPau.

Mae cyfleuster newydd i gael adborth ymarferwyr wedi cael ei gynnwys yn y Pasbort yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg hefyd wedi sefydlu nifer o grwpiau i randdeiliad sy'n ymarferwyr er mwyn casglu adborth gan ddefnyddwyr presennol sy'n defnyddio'r safonau proffesiynol newydd a'r proffil ymsefydlu i athrawon newydd gymhwyso.

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd yn ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r PDP er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol, gydag ymgais i greu Pasbort a arweinir gan ymarferwyr. Dylai ymgysylltu â Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn pennu ffordd greadigol ymlaen fod yn flaenoriaeth bellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymchwilio i'r potensial o alinio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn well â Hwb, adnodd ar-lein Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyngor y Gweithlu Addysg ac Uned Dysgu Digidol Llywodraeth Cymru, er mwyn trafod trywydd ar gyfer y Pasbort Dysgu Proffesiynol a llwyfan Hwb. Nod y sesiynau hyn yw ystyried synergeddau posibl rhwng y llwyfannau a helpu i wella taith defnyddwyr. O ystyried y pwyslais yn y dyfodol ar lwyfannau digidol i gefnogi athrawon a dysgwyr fel ei gilydd, mae angen rhoi blaenoriaeth i geisio synergeddau rhwng Hwb a chynifer o lwyfannau perthnasol â phosibl.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet werthuso effaith Hwb i weld sut y gellir ei ddefnyddio ymhellach i fod o fudd i'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol llawn o'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn 2015, a chyhoeddwyd yr adroddiad (<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-implementation-learning-digital-wales-programme/?lang=cy>) ym mis Hydref 2016.

Ym mis Mehefin 2017 cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol arall fel rhan o'r arfarniad o opsiynau ynglŷn â'r adnoddau digidol roedd rhanddeiliaid am eu cynnwys yn Hwb.

Caiff gwerthusiadau eraill eu hystyried maes o law.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd.

CASGLIADAU

1. Nid yw'r gweithlu addysg yn barod i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ar hyn o bryd.

Mae gweithgarwch dysgu proffesiynol helaeth yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno ledled Cymru. Rwyf yn canolbwyntio ar weithredu methodoleg glir ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar y canlynol:

- Arfer myfyriol
- Defnyddio data a thystiolaeth ymchwil yn effeithiol
- Cydweithio effeithiol
- Hyfforddi a mentora

Caiff y drefn ar gyfer dysgu proffesiynol a'r cwricwlwm newydd eu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau bod y gofynion dysgu proffesiynol uniongyrchol a'r gofynion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu datblygu mewn ffordd gynlluniedig a strwythuredig.

Wrth wraidd y diwygiadau presennol mae ein nod o ddatblygu system hunanwella. Mae hynny'n gam bwriadol i ffwrdd o'r drefn o'r brig i lawr a welwyd yn y gorffennol, lle mae'r Llywodraeth yn cyfarwyddo ac yn cosbi, i un lle mae'n rhoi arweinyddiaeth strategol, prosesau hwyluso a chymorth.

Mae pob un o'r consortia rhanbarthol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i feithrin y gallu i gefnogi'r newid i system a arweinir gan ysgolion drwy rwydweithiau, triadau a mentoriaid i gefnogi gweithio rhwng ysgolion sy'n canolbwyntio ar ymholi ymarferwyr a datblygu arfer ar y cyd.

Er mwyn meithrin gallu mewn ysgolion yng Nghymru ymhellach, mae gennym uchelgais i ddatblygu pob ysgol fel sefydliad sy'n dysgu. Ers mis Ionawr 2017, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r consortia rhanbarthol i wireddu'r uchelgais hon. Mae dros 2,000 o ymarferwyr ledled Cymru wedi cyfrannu at raglenni peilot cynnar a bwriedir ei gyflwyno i bob ysgol yng Nghymru yn ddiweddarach eleni.

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i welliant parhaus a chydweithio, drwy helpu ymarferwyr i ymdrechu at ymarfer rhagorol parhaus o'r hyfforddiant cychwynol hyd at arweinyddiaeth ysgolion. Bydd y safonau newydd yn gosod y safon er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau sydd eu hangen i feithrin gallu arweinyddiaeth ar bob lefel.

2. Rhaid mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r ffaith na chyrrhaeddir targedau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon er mwyn sicrhau ansawdd yr addysgu sy'n ofynnol, cynyddu niferoedd athrawon, a llenwi lleoedd ar y cyrsiau. Pryder arbennig yw'r prinder athrawon mewn meysydd penodol.

Mae addysg gychwynnol i athrawon wrthi'n cael ei diwygio yn sgil yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Athro Furlong yn 2015, Addysgu Athrawon Yfory. Nododd yr adroddiad nad oedd yr addysg gychwynnol bresennol i athrawon yng Nghymru o'r safon angenrheidiol i ddatblygu'r athrawon sydd eu hangen arnom nawr ac yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon, sydd wedi'u cynllunio'n benodol i godi safon addysg gychwynnol athrawon ac ategu'r broses o ddatblygu athrawon o safon, ym mis Mawrth 2017. Hefyd, rwyf wedi rhoi pwerau i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu rhaglenni addysg gychwynnol unigol i athrawon, drwy sefydlu'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon. Drwy sefydlu'r bwrdd bydd modd ystyried yn fwy penodol sut y bydd y rhaglenni yn codi safon darpariaeth, gan ddenu'r bobl gywir sydd â'r sgiliau cywir, y cymwysterau a dawn i addysgu, i ymuno â'r proffesiwn.

Bydd y bwrdd yn craffu ar bob rhaglen addysg gychwynnol i athrawon a gyflwynir er mwyn sicrhau bod pob rhaglen yn ymestynnol, yn gredadwy ac yn broffesiynol briodol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys craffu ar strategaethau recriwtio'r Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon ar gyfer llenwi'r lleoedd a neilltuwyd iddynt a chyflawni eu targedau drwy recriwtio ymgeiswyr galluog iawn o safon uchel.

Rydym am i Gymru fod mor atyniadol â phosibl i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. Ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd cymhellion newydd a gwell gennym i addysgu pynciau â blaenoriaeth megis ffiseg, cemeg, cyfrifiadureg, mathemateg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern. O addysg gychwynnol i athrawon, i mewn i'r ystafell ddosbarth a thrwy ddysgu proffesiynol gydol gyrfa, mae ein trefn genedlaethol yn canolbwyntio ar sicrhau proffesiwn addysgu o safon uchel a'i ddatblygu ymhellach. Credwn y bydd hyn, ynghyd â chwricwlwm newydd, trefn newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac ymrwymiad i ddysgu proffesiynol yn helpu i ddenu'r athrawon gorau i Gymru.

I'r perwyl hwn, rwyf wedi sefydlu'r Bwrdd Cynghori ar Recriwtio a Chadw Athrawon yn ddiweddar. Bydd y Bwrdd Cynghori yn cynnig her, trylwyredd a threfniadau sicrhau ansawdd er mwyn llywio meysydd allweddol datblygu polisi cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys goblygiadau sy'n deillio o Strategaeth y Gymraeg - Cymraeg 2050. Bydd y Bwrdd Cynghori hefyd yn rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar hynt y diwygiadau i addysg gychwynnol i athrawon a chefnogi'r gweithlu addysgu presennol, gan ystyried ymarfer rhagorol mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol.

Mae fy swyddogion hefyd wedi comisiynu darn allweddol o ymchwil i Gadw Athrawon ac Atyniad Addysgu yng Nghymru a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018.

3. Mae angen mwy o ymchwil am addysg yng Nghymru, a byddai nifer y diwygiadau addysg penodol i Gymru yn elwa ar gael mwy o waith craffu a dadansoddi academiaidd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwaith craffu a dadansoddi academiaidd ar ein diwygiadau. Mae 'Addysg yng Nghymru' yn cynnwys amcan i "ddatblygu sail gwybodaeth, arbenigedd ac ymchwil y system hunanwella drwy gefnogi cydweithio o fewn ysgolion, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch, a rhyngddynt, ac ymrwymo i rannu tystiolaeth ymchwil ac ymarfer effeithiol ym mhob rhan o'r system". Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phartneriaid megis yr OECD a'r Sefydliad Gwaddol Addysgol i wella'r defnydd o dystiolaeth ac ymchwil a'i chysylltiad â pholisi drwy barhau i fuddsoddi mewn meithrin gallu o ran ymchwil ar bob lefel o'r system. Mae hyn yn ychwanegol at gomisiynu gwerthusiadau annibynnol o agweddau allweddol ar y diwygiadau.

Amcanion Strategol Ymchwil Llywodraeth Cymru yw:

- Gwireddu gweledigaeth 'Cenhadaeth Cenedl' drwy sicrhau y gwneir mwy o ymchwil addysg o safon uchel a'i bod yn llywio polisi ac ymarfer.
- Datblygu system addysgu 'hunanwella' lle mae athrawon yn cael eu llywio gan ymchwil ac yn gyfarwydd ag ymchwil.
- Dylai'r uchod arwain at fwy o benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio er mwyn cyfeirio adnoddau lle y byddant fwyaf effeithiol.

4. Dylid gwerthfawrogi datblygiad proffesiynol athrawon ynddo'i hun, a'i gydnabod fel offeryn i gefnogi twf athrawon, yn hytrach nag offeryn rheoli perfformiad.

Mae cymryd rhan weithredol mewn dysgu proffesiynol yn un o brif gyfrifoldebau pob ymarferydd er mwyn sicrhau bod eu hymarfer wedi'i lywio gan feirniadaeth ac yn gyfredol. Ni fyddai'n briodol rhagnodi pa ddysgu proffesiynol y dylai ymarferydd ymgymryd ag ef, oherwydd mae pawb yn wahanol. Fodd bynnag, mae'r safonau proffesiynol yn atgyfnerthu'r disgwyliad y dylai dysgu proffesiynol bob amser fod yn gydweithredol, yn gydlynol ac wedi'i arwain gan ymchwil; sy'n herio syniadau ac yn newid ymarfer yn y pen draw. Daw'r effaith i'r amlwg yn y broses o ymgorffori'r pedwar diben yn addysg a phrofiadau ein holl ddysgwyr.

Mae ymrwymiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru i ddysgu proffesiynol parhaus wedi'i adlewyrchu yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer y safonau proffesiynol newydd, dylai staff fod yn gwbl ymroddedig i nodi amcanion a blaenoriaethau eu dysgu proffesiynol eu hunain. Yn unol â'r safonau newydd ar gyfer arweinyddiaeth, mae gan arweinwyr ysgolion rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn gwneud i hyn ddigwydd drwy sicrhau bod diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu proffesiynol. Ochr yn ochr â'r newid i system hunanwella, **nid** yw'r safonau wedi cael eu cynllunio i'w defnyddio fel adnodd galluogrwydd, sy'n gysylltiedig â rheoli perfformiad.

Mae gan ysgol sy'n gweithredu fel sefydliad sy'n dysgu ddiwylliant cefnogol ac mae'n neilltuo amser ac adnoddau eraill i sicrhau y gall athrawon gyflawni'r safonau hyn. Mae un o saith dimensiwn ysgol sy'n gweithredu fel sefydliad sy'n dysgu yn canolbwyntio ar 'greu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod o staff'. Mae staff sy'n rhan o ysgol sy'n sefydliad sy'n dysgu yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol. Maent yn gwbl ymroddedig i nodi amcanion a blaenoriaethau eu dysgu eu hunain yn unol â nodau'r ysgol ac anghenion dysgu disgyblion, fel y'u diffiniwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol y staff hefyd yn seiliedig ar asesu ac adborth parhaus sydd wedi'u hymgorffori yn eu hymarfer beunyddiol. Mae'r fath fyfyrion, dadansoddi a heriau i batrymau meddwl sefydledig yn angenrheidiol i sicrhau'r newid a'r arloesedd a ddymunir mewn ymarfer addysgol yn ein hysgolion a'u hymgorffori.

Nid oes modd cael dysgu sefydliadol heb ddysgu unigol, ond mae'n rhaid i ddysgu unigol gael ei rannu a'i ledaenu gan y sefydliad a'i aelodau.

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg